

The
Electoral
Commission

Llawlyfr y Cyfryngau

Etholiad cyffredinol Senedd y DU

12 Rhagfyr 2019

The Electoral Commission

Cysylltiadau'r cyfryngau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Orla Hennessy a Billy Proudlock

Ffôn: 020 7271 0704

press@electoralcommission.org.uk

Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Ein sianeli

Dilynwch ni ar Twitter:

[@ElectoralCommUK](#) ac [@YourVote UK](#)

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

[Darllenwch ein blog](#)

Swyddfa'r Alban

Sarah Mackie

Ffôn: 0131 225 0204

SMackie@electoralcommission.org.uk

Swyddfa Cymru

Gethin Rowlands

Ffôn: 0292 034 6808

GRowlands@electoralcommission.org.uk

Swyddfa Gogledd Iwerddon

Ffôn: 028 9089 4023

press@electoralcommission.org.uk

Gwefannau

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Mae ein gwefan gorfforaethol yn cynnwys [adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr](#) sy'n cynnwys ein datganiadau i'r wasg. Mae'n cynnwys [gwybodaeth am roddion i bleidiau gwleidyddol](#) yn y cyfnod cyn yr etholiad ac ardal canllawiau gyda [gwybodaeth i ymgeiswyr](#) a'r rhai sy'n [gweinyddu'r etholiad](#).

Mae ein gwefan hefyd yn rhoi [gwybodaeth i'r cyhoedd](#) am sut i gofrestru a phleidleisio, gan gynnwys ffurflenni y gallant eu hargraffu i gofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae'n cynnwys [cyfleuster chwilio am god post](#) sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i fanylion cyswllt eu swyddfa cofrestru etholiadol leol yn ogystal â manylion am orsafoedd pleidleisio ac ymgeiswyr.

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Dyma'r wefan lle gall y cyhoedd gofrestru i bleidleisio ar-lein. Mae'n gyflym ac yn hawdd ei defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. Rydym yn annog y cyfryngau i gyfeirio at y wefan hon

wrth sôn am yr etholiad er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod ble y gallant gofrestru.

Cynnwys

Cynnwys	4
Logisteg	6
Rolau a chyfrifoldebau yn yr etholiad	6
Amserlen Etholiad	8
Ymgeiswyr	12
Dod yn ymgeisydd yn etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019	12
Pleidiau gwleidyddol.....	13
Terfynau gwariant ar weithgarwch ymgyrchu ymgeiswyr a rheolau ar dderbyn rhoddion	14
Y cyfnod a reoleiddir.....	14
Gwariant.....	14
Rhoddion.....	16
Adrodd.....	17
Pleidiau Gwleidyddol: Terfynau gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a rheolau ar dderbyn rhoddion	19
Y cyfnod a reoleiddir.....	19
Gwariant.....	19
Rhoddion.....	25
Adrodd.....	26
Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau	28
Cofrestru.....	28
Gwariant.....	29
Adrodd.....	30
Ymgyrchu yn yr etholiad	32
Cytundebau Etholiadol	34

Ymgyrchu digidol	36
Twyll Etholiadol	38
Tramgwyddau pleidleisio	38
Cyfrifoldebau am fynd i'r afael â thwyll etholiadol	39
Pleidleiswyr	41
Cofrestru i bleidleisio	41
Y broses bleidleisio	42
Codi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr	45
Trefnu etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr	46
Digwyddiadau cyfrif.....	47
Y broses gyfrif a chyhoeddi'r canlyniadau	47

Logisteg

Rolau a chyfrifoldebau yn yr etholiad

Cynhelir etholiad cyffredinol Senedd y DU ddydd Iau 12 Rhagfyr. Mae 650 o etholaethau Seneddol yn y DU. Caiff pob etholaeth ei chynrychioli gan un Aelod Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin.

	Nifer yr etholaethau
Lloegr	533
Yr Alban	59
Cymru	40
Gogledd Iwerddon	18

Swyddog Canlyniadau (Cymru a Lloegr)

Mewn etholiad cyffredinol ar gyfer Senedd y DU yng Nghymru a Lloegr, swydd seremonïol yw swydd y Swyddog Canlyniadau ar y cyfan, sydd naill ai'n Uchel Siryf neu'n Faer yr awdurdod lleol.

Dim ond y Swyddog Canlyniadau fydd yn derbyn y gwrit (er y gall ddirprwyo'r swyddogaeth hon). Y gwrit yw'r gorchymyn i gynnal etholiad mewn etholaeth. Gall y Swyddog Canlyniadau hefyd ddewis cyhoeddi'r canlyniad ar ddiwedd y broses gyfrif a dychwelyd y gwrit.

Swyddog Canlyniadau Gweithredol (Cymru a Lloegr)

Y Swyddog Canlyniadau Gweithredol, sef uwch-swyddog yn yr awdurdod lleol fel arfer, sy'n gyfrifol am weinyddu'r etholiad, gan gynnwys cynnal y broses gyfrif.

Swyddog Canlyniadau (Yr Alban)

Yn yr Alban, y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU yw'r un person â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau cyngor lleol. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu'r etholiad ar 12 Rhagfyr. Un o uwch-swyddogion y cyngor lleol ydyw fel arfer.

Drwy'r Llawlyfr hwn, defnyddir Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gyfeirio at y Swyddog Canlyniadau Gweithredol yng Nghymru a Lloegr a'r Swyddog Canlyniadau yn yr Alban.

Swyddogion Llywyddu

Penodir Swyddogion Llywyddu gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio, goruchwyllo clercod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl.

Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Ein rôl yn yr etholiadau hyn yw:

- llunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pennu safonau perfformiad a rhoi gwybod pa mor dda y mae gweinyddwyr etholiadol yn ei wneud yn erbyn y safonau hyn
- llunio canllawiau i ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- llunio canllawiau i bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- llunio canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau a sut i gymryd rhan ynddynt
- rhoi gwybod am y drefn cynnal yr etholiad
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario

Amserlen Etholiad

Digwyddiad	Dyddiad (Y dyddiad cau yw hanner nos oni nodir fel arall)
Dechrau'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau	Dydd Iau 13 Rhagfyr 2018
Diddymu'r Senedd	Dydd Mercher 6 Tachwedd
Dechrau cyfnod a reoleiddir 'ymgyrch fer' ar gyfer gwariant ar weithgarwch ymgyrchu	Heb fod yn gynharach na dydd Iau 7 Tachwedd
Derbyn gwrit	Dydd Iau 7 Tachwedd
Dogfennau cyfreithiol yw gwritiau sy'n awdurdodi'r broses o gynnal etholiad cyffredinol. Pan gaiff y Senedd ei diddymu cyn etholiad cyffredinol, rhoddir gwritiau i awdurdodau lleol yn datgan y caiff etholiad ei gynnal ym mhob etholaeth.	
Hysbysiad swyddogol o etholiad	Heb fod yn hwyrach na dydd Llun 11 Tachwedd (4pm)
Cyflwyno papurau enwebu	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad hyd at ddydd Iau 14 Tachwedd (4pm)
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol)	Dydd Iau 14 Tachwedd (4pm)
Y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	Dydd Iau 14 Tachwedd (4pm)

Digwyddiad

Dyddiad (Y dyddiad cau yw hanner nos oni nodir fel arall)

Gwneud gwrthwynebiadau i bapurau enwebu

(heblaw am wrthwynebiadau ar sail y ffaith y gall ymgeisydd unigol gael ei anghymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 – [gweler canllawiau'r Comisiwn](#))

Dydd Iau 14 Tachwedd (10am – 5pm) yn ddarostyngedig i'r canlynol:

Rhwng 10am a 12 canol dydd, gellir gwneud gwrthwynebiadau i bob papur enwebu a ddsbarthwyd

Rhwng 12 canol dydd a 5pm, dim ond i bapurau enwebu a ddsbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mercher 13 Tachwedd y gellir gwneud gwrthwynebiadau

Cyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad pleidleisio a lleoliad gorsafoedd pleidleisio

Os na fydd gwrthwynebiadau: Dydd Iau 14 Tachwedd (5pm)

Os gwneir gwrthwynebiad/gwrthwynebiadau: Ddim cyn gwaredu gwrthwynebiad/gwrthwynebiadau ond heb fod yn hwyrach na dydd Gwener 15 Tachwedd (4pm)

Y dyddiad cau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i gyflwyno eu hadroddiad wythnosol cyntaf am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais i'r Comisiwn Etholiadol

Dydd Mawrth 19 Tachwedd

Y dyddiad cau ar gyfer yr ail adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais

Dydd Mawrth 26 Tachwedd

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio

Dydd Mawrth 26 Tachwedd

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, gwneud cais am bleidlais bost drwy ddirprwy, ac ar gyfer newidiadau i bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes

Dydd Mawrth 26 Tachwedd (5pm)

Digwyddiad	Dyddiad (Y dyddiad cau yw hanner nos oni nodir fel arall)
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy	Dydd Mercher 4 Rhagfyr (5pm)
Y dyddiad cau ar gyfer y trydydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais	Dydd Mawrth 3 Rhagfyr
Y dyddiad cau ar gyfer y pedwerydd adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais	Dydd Mawrth 10 Rhagfyr
Y diwrnod pleidleisio	Rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 12 Rhagfyr
Y pwynt olaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a ddifethwyd neu a gollwyd	5pm ddydd Iau 12 Rhagfyr
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng	5pm ddydd Iau 12 Rhagfyr
Proses gyfrif yr etholiad	I ddechrau cyn gynted â phosibl ar ôl 10pm, ddydd Iau 12 Rhagfyr, a disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ddydd Gwener 13 Mehefin
Y dyddiad cau ar gyfer y pumed adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais	Dydd Mawrth 17 Rhagfyr
Y dyddiad cau ar gyfer y chweched adroddiad am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais, sef yr un olaf	Dydd Iau 19 Rhagfyr
Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr	Dydd Gwener 17 Ionawr 2020 (gan dybio y caiff y canlyniad ei ddatgan ddydd Gwener 13 Rhagfyr)

Digwyddiad

Dyddiad (Y dyddiad cau yw hanner nos oni nodir fel arall)

Y diwrnod olaf ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai i gyflwyno ffurflenni gwariant ar weithgarwch ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol Dydd Iau 12 Mawrth 2020

Y diwrnod olaf ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario mwy na £250,000 i gyflwyno ffurflenni gwariant ar weithgarwch ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol Dydd Gwener 12 Mehefin 2020

Ymgeiswyr

Dod yn ymgeisydd yn etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019

Pwy all fod yn ymgeisydd?

Rhaid i ymgeiswyr yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 12 Rhagfyr fodloni'r canlynol:

- bod yn 18 mlwydd oed o leiaf;
- bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr gael eu cofrestru i bleidleisio, na byw yn yr etholaeth Seneddol y maent am sefyll ynddi.

A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Mae'r rheolau ar gyfer sefyll etholiad a'r anghymwysiadau sy'n gymwys yn gymhleth. Ceir rhagor o wybodaeth yn [Rhan 1 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol i ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

Sut mae rhywun yn dod yn ymgeisydd?

Y cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod y diddymir Senedd y DU, sef **dydd Mercher 6 Tachwedd**.

Gall darpar ymgeiswyr gael eu dewis gan eu plaid, neu gyhoeddi eu bwriad i sefyll cyn y dyddiad hwn.

Beth sy'n rhaid i rywun sydd am sefyll fel ymgeisydd ei wneud?

Mae angen i bob darpar ymgeisydd gyflwyno'r canlynol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer yr etholaeth y mae am sefyll ynddi erbyn **4pm ddydd Iau 14 Tachwedd**:

- ffurflen enwebu wedi'i chwblhau. Ni all darpar ymgeiswyr gyflwyno'r ffurflen enwebu nes y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad o etholiad
- ffurflen cyfeiriad cartref wedi'i chwblhau
- ei gydsyniad i'r enwebiad
- ernes o £500

Hefyd, rhaid i ymgeiswyr sy'n sefyll dros blaid wleidyddol gyflwyno'r canlynol:

- tystysgrif gan y plaid wleidyddol sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio enw'r plaid neu ddisgrifiad o'r plaid fel y'i cofrestrwyd gan y Comisiwn Etholiadol

- cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau cofrestredig y plaid (dewisol)

Pa wybodaeth am ymgeisydd y gellir ei chynnwys ar y papur pleidleisio?

Gall ymgeiswyr sy'n sefyll dros plaid wleidyddol ofyn am gael defnyddio enw'r plaid neu ddisgrifiad o'r plaid ar y papur pleidleisio, ond ni all ofyn am y ddau. Yng Nghymru, caiff ymgeiswyr ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r plaid neu'r disgrifiad o'r plaid, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru â'r Comisiwn.

Dim ond y gair 'Independent' (a/neu 'Annibynnol' yng Nghymru) y gall ymgeiswyr annibynnol ei ddefnyddio ar y papur pleidleisio; neu gallant ddewis peidio â chael disgrifiad. Byddant yn penderfynu ar hyn wrth gwblhau eu ffurflen enwebu.

Pryd y byddwn yn gwybod pwy yw'r holl ymgeiswyr?

Bydd Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi rhestr lawn o'r ymgeiswyr sy'n sefyll yn eu hetholaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn digwydd erbyn 5pm **ddydd Iau 14 Tachwedd**.

Os ceir gwrthwynebiadau i enwebiadau, byddant yn cyhoeddi rhestr wedi'i diweddarau o ymgeiswyr erbyn 4pm, **ddydd Gwener 15 Tachwedd** fan bellaf.

I gael gwybod sut a ble y caiff rhestrau o ymgeiswyr eu cyhoeddi, cysylltwch â'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn uniongyrchol.

Pleidiau gwleidyddol

A oes angen i bleidiau sy'n ymladd etholiadau fod wedi'u cofrestru â'r Comisiwn?

Dim ond y pleidiau gwleidyddol hynny sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol y gellir rhoi eu henw a'u disgrifiadau a'u harwyddluniau cymeradwy ar bapur pleidleisio. Os nad yw plaid wedi'i chofrestru â'r Comisiwn, gall fynd ati i ymgyrchu mewn etholiad o hyd, ond byddai'n rhaid i unrhyw ymgeisydd y mae'n dymuno iddo sefyll ar ei rhan naill ai gael dim byd neu 'independent' (a/neu 'Annibynnol' yng Nghymru) wrth ymyl ei enw, yn hytrach nag enw plaid.

A oes rhaid i ymgeiswyr sefyll o dan enw plaid wleidyddol?

Nac oes, gall person sefyll fel ymgeisydd annibynnol, h.y. nid ar ran unrhyw plaid wleidyddol.

Terfynau gwariant ar weithgarwch ymgyrchu ymgeiswyr a rheolau ar dderbyn rhoddion

Y cyfnod a reoleiddir

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir?

Y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod cyn etholiad pan fydd y rheolau ar wariant etholiadol yn gymwys i weithgarwch ymgyrchu. Rhaid i ymgeiswyr roi gwybod am unrhyw wariant yr eir iddo yn ystod y cyfnod hwn.

Ar gyfer etholiad cyffredinol 2015, roedd dau gyfnod a reoleiddir i ymgeiswyr y cyfeiriwyd atynt fel yr 'ymgyrch hir' a'r 'ymgyrch fer', pan oedd terfynau gwariant yn gymwys. Ar gyfer yr etholiad ddydd lau 12 Rhagfyr, **dim ond ymgyrch fer** a geir.

Bydd yr ymgyrch hir yn digwydd pan fydd etholiad cyffredinol Senedd y DU wedi'i alw a phan fydd y Senedd eisoes wedi bod yn eistedd ers 55 o fisoedd. Yn achos etholiad mis Rhagfyr 2019, mae Senedd y DU wedi bod yn eistedd am lai na 29 o fisoedd.

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2019 yn dechrau ar **y diwrnod ar ôl** y dyddiad y bydd person yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef **dydd lau 12 Rhagfyr**.

Y dyddiad cynharaf y gall person ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r **diwrnod** y diddymir Senedd y DU. Diddymir y Senedd **ddydd Mercher 6 Tachwedd**.

Os na chaiff bwriad unigolyn i sefyll fel ymgeisydd ei gyhoeddi cyn **dydd Mercher 6 Tachwedd**, bydd yr ymgyrch fer naill ai'n dechrau ar y diwrnod y bydd yn cyhoeddi ei fwriad i sefyll, neu'r dyddiad y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, p'un bynnag fydd gynharaf.

Gwariant

Beth fydd yn digwydd os caiff arian ei wario ar ymgeisydd plaid wleidyddol cyn y cyfnod a reoleiddir?

Bydd unrhyw wariant sy'n hyrwyddo ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol cyn i gyfnod a reoleiddir yr ymgeisydd ddechrau yn dod o dan reolau gwariant pleidiau.

Ceir [canllawiau ar wariant ar ymgeiswyr pleidiau ar wefan y Comisiwn](#).

Beth yw'r terfynau gwariant? (Prydain Fawr)

Y terfyn gwariant ar gyfer ymgeiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir yw £8,700 ynghyd â swm amrywiadwy sy'n seiliedig ar nifer yr etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth y maent yn ei hymladd.

Symiau amrywiadwy

Y cyfnod a reoleiddir	Swm penodedig	Etholaeth fwrdeistref (Burgh yn yr Alban)	Etholaeth sirol
Rhwng dydd Mercher 6 Tachwedd a dydd Iau 12 Rhagfyr (diwrnod pleidleisio)	£8,700	6c fesul etholwr Seneddol cofrestredig	9c fesul etholwr Seneddol cofrestredig

Sut mae ymgeiswyr yn gwybod faint o bobl sy'n byw yn yr etholaeth y maent yn sefyll ynddi?

Mae nifer yr etholwyr Seneddol mewn etholaeth benodol yn seiliedig ar y gofrestr etholiadol fel y mae ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad, sef dydd Llun 11 Tachwedd.

Gall ymgeiswyr gysylltu â'u swyddfa etholiadau leol i ofyn am nifer diweddaraf yr etholwyr er mwyn eu helpu i gynllunio eu gwariant yn ystod yr ymgyrch.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys costau:

- hysbysebu o unrhyw fath, fel posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau, hysbysebion a ddangosir ar-lein, negeseuon a hyrwyddir ar y cyfryngau cymdeithasol neu fideos YouTube
- deunydd digymell a anfonir at bleidleiswyr, fel llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost na chânt eu hanfon mewn ymateb i ymholiadau penodol
- costau cludiant, fel ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i ymgyrchwyr yr ymgeisydd
- cyfarfodydd cyhoeddus
- costau staff (e.e. cyflog asiant, neu staff sydd wedi'u secondio i ymgeisydd)
- adeilad (e.e. swyddfa ymgyrch)
- costau gweinyddol (e.e. biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopiâu a'r defnydd o gronfeydd data)

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif mae:

- talu ernes ymgeisydd
- unrhyw beth (heblaw am hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- y defnydd o ystafelloedd cyfarfod cyhoeddus
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan staff yr ymgeisydd nad yw'n eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim
- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim
- cyfarpar cyfrifiadurol cyffredinol a brynir at ddefnydd personol yr ymgeisydd

Rhoddion

Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Gall unrhyw un roi rhodd sy'n werth llai na £50 i ymgeiswyr. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan rhoddion sydd â gwerth o £50 neu lai ar eu ffurflen gwariant a rhoddion.

Nid oes unrhyw derfynau ar nifer y rhoddion y gall ymgeisydd eu derbyn yn ystod etholiad cyffredinol Senedd y DU. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw rodd a dderbynnir sy'n werth mwy na £50 yn dod o ffynhonnell a ganiateir. Mae hyn yn gymwys i roddion arian parod a rhoddion mewn da. Rhaid i roddion nad ydynt o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd at y rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn ar un o gofrestrau etholwyr y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU

Ni all ymgeiswyr dderbyn rhoddion sy'n werth mwy na £50 oni bai eu bod yn rhai a ganiateir.

A yw gwariant ar weithgarwch ymgyrchu gan blaid wleidyddol mewn etholaeth benodol yn cyfrif tuag at derfyn gwariant ymgeisydd?

Weithiau. Nid oes angen i wariant gael ei gyfrif yn erbyn terfynau gwariant yr ymgeisydd a'r blaid. Bydd eitem o wariant fel arfer yn cael ei gynnwys mewn un categori neu'r llall:

- mae gwariant ar weithgarwch sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd yn debygol o gyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd – er enghraifft, llythyr a anfonir at etholwyr yn cyflwyno'r ymgeisydd a'i bolisiau lleol
- mae gwariant ar weithgarwch sy'n hyrwyddo'r blaid ac nid yr ymgeisydd yn debygol o gael ei gwmpasu gan y rheolau ar wariant ymgyrchu plaid – er enghraifft, hysbyseb papur newydd lleol sy'n cynnwys polisiau cenedlaethol a logo'r blaid, ond nad yw'n sôn am yr ymgeisydd lleol na materion lleol a dargedwyd yn benodol

Pan fydd plaid wleidyddol yn gwario arian yn hyrwyddo ymgeisydd penodol, yna bydd y gwariant hwnnw yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

I ba raddau y gall pleidiau gwleidyddol ariannu eu hymgeiswyr?

Mae llawer o bleidiau gwleidyddol yn cynnal 'cronfeydd ymladd' lleol i'w hymgeisydd. Os yw'r gronfa wedi'i rheoli gan y blaid ac nid yr ymgeisydd, yna caiff rhoddion i'r gronfa eu trin fel rhoddion a roddir i'r blaid fel arfer, oni chaiff y rhoddion eu rhoi'n benodol tuag at ymgyrch yr ymgeisydd.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod a reoleiddir, rhaid rhoi gwybod am unrhyw roddion a wnaed gan y blaid i ymgeisydd sy'n fwy na £50 ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd.

Beth yw'r rheolau ar gyllido torfol?

Gall ymgeiswyr a phleidiau dderbyn rhoddion gan ddefnyddio gwefannau cyllido torfol, a reolir yn aml gan ddarparwyr trydydd parti, sy'n trosglwyddo'r rhoddion i'r ymgeisydd neu'r blaid ar ôl codi ffi.

Dylai tudalennau cyllido torfol sicrhau bod rhoddwyr yn ymwybodol o'r rheolau ynghylch yr hyn a ganiateir a'r broses o ddatgan rhoddion a'r posibilrwydd y bydd enwau rhoddwyr yn ymddangos yn gyhoeddus. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd hefyd yw sicrhau ei fod yn casglu digon o wybodaeth i gyflawni ei rwymedigaethau adrodd yn gywir, gan gynnwys rhoi gwybod sut yr ymdriniwyd â rhoddion gan roddwyr nas caniateir.

At ddibenion adrodd, dyddiad derbyn rhodd yw'r dyddiad y derbynnir yr arian gan y safle cyllido torfol trydydd parti. Os caiff rhodd ei derbyn fel hyn gan ffynhonnell nas caniateir, rhaid ei dychwelyd o fewn 30 diwrnod.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [canllawiau ar gyllido torfol a rhoddion a ganiateir](#).

Adrodd

I bwy y mae ymgeiswyr yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i asiantiaid ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'w Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o fewn 35 diwrnod i ddatgan canlyniad yr etholiad.

Os na eir i unrhyw wariant, rhaid i'r asiant gyflwyno ffurflen dim trafodion.

Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd yn mynd y tu hwnt i'w derfyn gwariant?

Gall mynd y tu hwnt i'r terfyn gwariant fod yn drosedd. Fel arfer, gwneir honiadau sy'n berthnasol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, gan gynnwys troseddau'n ymwneud â gwariant ymgeisydd, i'r heddlu lleol perthnasol eu hystyried.

Er bod gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth â rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud â threuliau ymgeiswyr ac asiantiaid, nid oes ganddo awdurdod cyfreithiol i ymchwilio i droseddau na rhoi cosbau ar eu cyfer o dan y Ddeddf.

Mae [Rhan 3 o ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am wariant a rhoddion i ymgeiswyr.

Pleidiau Gwleidyddol: Terfynau gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a rheolau ar dderbyn rhoddion

Y cyfnod a reoleiddir

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir?

Y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod cyn etholiad pan fydd y rheolau ar wariant etholiadol yn gymwys i weithgarwch ymgyrchu. Rhaid i bleidiau gwleidyddol roi gwybod am unrhyw wariant yr eir iddo yn ystod y cyfnod hwn.

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU a gynhelir ym mis Rhagfyr 2019 **ddydd Iau 13 Rhagfyr 2018**, a bydd yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef **dydd Iau 12 Rhagfyr 2019**.

Gwariant

Faint y gall pleidiau gwleidyddol ei wario yn etholiad cyffredinol Senedd y DU

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU yn gorgyffwrdd â'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019. Os oedd gan blaid ymgeiswyr yn sefyll yn yr etholiad hwn yn ogystal ag etholiad cyffredinol Senedd y DU, bydd hyn yn effeithio ar ei therfyn gwariant.

Felly, y terfyn gwariant ar gyfer pleidiau yw cyfanswm eu terfyn gwariant ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop, wedi'i ychwanegu at eu terfyn gwariant ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU. [I gael mwy o fanylion, gweler canllawiau'r Comisiwn.](#)

Faint y gall pleidiau gwleidyddol ei wario yn etholiad cyffredinol Senedd y DU os nad oedd ganddynt ymgeiswyr yn sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop?

Y swm y gall plaid wleidyddol sy'n ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU ym Mhrydain Fawr ei wario os **nad oedd ganddi** ymgeiswyr yn sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop yw'r mwyaf o naill ai:

- swm penodedig, fel y diffinnir isod

neu

- £30,000 wedi'i luosi â nifer y seddi y mae plaid yn eu hysladd ym mhob rhan o Brydain Fawr. Mae gan bob rhan o Brydain Fawr derfyn ar wahân sy'n seiliedig ar nifer y seddi y mae plaid yn eu hysladd ym mhob ardal

Swm penodedig

	Terfyn gwariant
Lloegr	£810,000
Yr Alban	£120,000
Cymru	£60,000

£30,000 wedi'i luosi â nifer y seddi y mae plaid yn eu hysladd

	Cyfanswm y seddi
Lloegr	533
Yr Alban	59
Cymru	40

Enghraifft

Mae plaid yn ymladd 10 etholaeth yng Nghymru, 200 o etholaethau yn Lloegr ac 20 o etholaethau yn yr Alban. Byddai terfyn gwariant y blaid yn fwy na'r swm penodedig a ddangosir yn y tabl cyntaf.

	Cyfrifiad ar gyfer terfynau gwariant
Lloegr	£6,000,000 (200 x £30,000)
Yr Alban	£600,000 (20 x £30,000)

Faint y gall pleidiau gwleidyddol ei wario yn etholiad cyffredinol Senedd y DU os oedd ganddynt ymgeiswyr yn sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop?

Os yw plaid yn ymladd etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2019 a'i bod hefyd wedi ymladd etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai 2019, caiff ei **therfynau gwariant ar gyfer y ddau etholiad eu cyfuno**.

Gall pleidiau gario drosodd unrhyw gyfran nas gwariwyd o'u terfyn gwariant o etholiad Senedd Ewrop i'w defnyddio ar wariant yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Faint y gallai pleidiau ei wario yn etholiadau Senedd Ewrop?

Roedd y terfyn gwariant ar gyfer pleidiau yn etholiadau Senedd Ewrop yn seiliedig ar nifer y rhanbarthau etholiadol lle'r oedd ganddynt ymgeiswyr yn sefyll. Fe'i cyfrifwyd gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol: £45,000 wedi'i luosi â chyfanswm nifer yr Aelodau Senedd Ewrop (ASEau) ar gyfer pob rhanbarth etholiadol lle'r oedd gan blaid ymgeisydd yn sefyll.

Nid oedd gan ymgeiswyr a oedd yn sefyll ar restr plaid derfyn gwariant ar wahân. Roedd yr holl wariant yr aed iddo wrth hyrwyddo ymgeisydd ar restr plaid yn wariant gan y blaid ac roedd yn rhaid iddo ymddangos ar ffurflen gwariant y blaid.

Er enghraifft, mae gan blaid Y dri ymgeisydd ar restr plaid yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, felly terfyn gwariant y blaid fyddai pump (cyfanswm nifer yr ASEau ar gyfer y rhanbarth hwn) wedi'i luosi â £45,000 = £225,000. Nodir y cyfrifiad ar gyfer pob rhanbarth yn Lloegr yn y tabl isod.

Rhanbarth etholiadol	Cyfrifiad ar gyfer terfynau
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£225,000
Dwyrain Lloegr	£315,000
Llundain	£360,000
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£135,000
Gogledd-orllewin Lloegr	£360,000
De-ddwyrain Lloegr	£450,000
De-orllewin Lloegr	£270,000

Gorllewin Canolbarth Lloegr £315,000

Swydd Efrog a'r Humber £270,000

Unwaith y defnyddir y fformiwla i gyfrifo terfyn gwariant y blaid yn Lloegr, gellir ei wario yn unrhyw un o'r naw rhanbarth etholiadol yn Lloegr.

Os oes gan y blaid ymgeiswyr mewn un neu fwy o ranbarthau etholiadol yn Lloegr, ni ddylai fynd y tu hwnt i'r terfynau gwariant cyfunol.

Er enghraifft: mae gan blaid Y dri ymgeisydd yn Nwyrain Canolbarth Lloegr ac un ymgeisydd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, caiff terfyn gwariant y blaid ei gyfrifo fel a ganlyn:

Mae pump ASE wedi'u dychwelyd yn Nwyrain Canolbarth Lloegr: $5 \times 45,000 = £225,000$

Mae saith ASE wedi'u dychwelyd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr: $7 (45,000 \times £315,000)$

Terfyn gwariant y blaid yw $£225,000 + £315,000 = £540,000$

Gall y blaid wario £10,000 yn Nwyrain Canolbarth Lloegr a £530,000 yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr

Gall y blaid hefyd rannu ei gwariant rhwng y naw rhanbarth etholiadol yn Lloegr.

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhanbarthau etholiadol ar wahân. Mae gan blaid sydd ag ymgeiswyr yn sefyll yn unrhyw un o'r gwledydd hyn y terfynau canlynol.

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwariant
----------------------	-------------------

Yr Alban	£270,000
----------	----------

Cymru	£180,000
-------	----------

Gogledd Iwerddon	£135,000
------------------	----------

Caiff yr holl wariant sy'n hyrwyddo ymgeiswyr ar restr plaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ei ystyried yn wariant gan blaid wleidyddol a rhaid rhoi gwybod amdano yn ffurflen y blaid wleidyddol. Nid oes unrhyw derfyn gwariant ymgeisydd ar wahân ar gyfer ymgeiswyr ar restr plaid wleidyddol, ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon.

Cyfrifo'r terfyn gwariant cyfun ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU

Y terfyn gwariant cyfun ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU fydd y terfyn gwariant ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop a'r mwyaf o naill ai:

- swm penodedig, fel y diffinnir isod

neu

- £30,000 wedi'i luosi â nifer y seddi y mae plaid yn eu hympladd ym mhob rhan o Brydain Fawr. Mae gan bob rhan o Brydain Fawr derfyn ar wahân sy'n seiliedig ar nifer y seddi y mae plaid yn eu hympladd ym mhob ardal

Swm penodedig

Rhanbarth etholiadol	Terfyn gwariant
Lloegr	£810,000
Yr Alban	£120,000
Cymru	£60,000

£30,000 wedi'i luosi â nifer y seddi y mae plaid yn eu hympladd

Rhanbarth etholiadol	Cyfanswm y seddi
Lloegr	533
Yr Alban	59
Cymru	40

Enghraifft

Mae plaid yn ymladd 10 etholaeth yng Nghymru, 200 o etholaethau yn Lloegr ac 20 o etholaethau yn yr Alban yn etholiad cyffredinol Senedd y DU. Byddai terfyn gwariant y blaid yn fwy na'r swm penodedig a ddangosir yn y tabl cyntaf.

Gwnaeth y blaid hefyd ymladd seddi yng Nghymru, yr Alban a dau ranbarth yn Lloegr (Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr) yn etholiadau Senedd Ewrop 2019.

Nodir **terfyn gwariant cyfun y blaid** yn y tabl isod:

Rhanbarth etholiadol Cyfrifiad ar gyfer terfynau gwariant cyfun

Lloegr – Etholiad
cyffredinol Senedd y
DU £6,000,000 (200 x £30,000)
Dwyrain Canolbarth Lloegr: £225,000 + Gornllewin Canolbarth
Lloegr: £315,000 = £540,000

Lloegr – Etholiad
Senedd Ewrop

Yr Alban – Etholiad
cyffredinol Senedd y
DU £600,000 (20 x £30,000)
£270,000

Yr Alban – Etholiad
Senedd Ewrop

Cymru – Etholiad
cyffredinol Senedd y
DU £300,000 (10 x £30,000)
£180,000

Cymru – Etholiad
Senedd Ewrop

**Terfyn gwariant
cyfun** Lloegr (£6,000,000 + £540,000) = £6,540,000
Yr Alban (£600,000 + £270,000) = £870,000
Cymru (£300,000 + £180,000) = £480,000
£7,890,000

Mae'r terfynau hyn ar gyfer gwariant ym mhob etholiad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Mae arian a wariwyd gan blaid yn ymgyrchu yn etholiad Senedd Ewrop, etholiadau lleol neu unrhyw is-etholiadau yn cyfrif tuag at ei therfyn gwariant.

Ceir rhagor o wybodaeth am y terfynau gwariant ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU i bleidiau yng Ngogledd Iwerddon a fu'n ymladd etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai 2019 yn llawlyfr etholiad cyffredinol Senedd y DU ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Ymhlith y gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- hysbysebion plaid o unrhyw fath, fel posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, hysbysebion a ddangosir ar-lein, negeseuon a hyrwyddir ar y cyfryngau cymdeithasol neu fideos YouTube
- deunydd digymell a anfonir at bleidleiswyr, fel llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost na chânt eu hanfon mewn ymateb i ymholiadau penodol
- y maniffesto a dogfennau eraill sy'n nodi polisiâu'r blaid
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod pa blaid mae pobl yn bwriadu pleidleisio drosti
- cynadleddau'r wasg y blaid neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliâu a digwyddiadau pleidiol, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â hyrwyddo neu roi cyhoeddusrwydd i'r blaid

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff gontract cyflogaeth uniongyrchol â'r blaid
- amser gwirfoddolwyr
- costau rhedeg swyddfa, heblaw am gostau sy'n uwch na'r arfer oherwydd gwaith ymgyrchu, fel biliau ffôn
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai bod y blaid yn eu had-dalu
- treuliau a delir o arian cyhoeddus. Er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau VIP
- deunydd a anfonir at aelodau'r blaid yn unig
- cynadleddau'r blaid
- cylchlythyrau lleol am gynrychiolwyr etholedig neu ddarpar ymgeiswyr
- unrhyw beth y mae ymgeisydd yn ei ddatgan yn briodol ar ei ffurflen gwariant

Rhoddion

Pa roddion y gall pleidiau ac ymgyrchwyr eu derbyn?

Yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), cyn i blaid dderbyn unrhyw rodd neu fenthyciad sy'n fwy na £500, rhaid iddi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn gwybod pwy yw'r gwir ffynhonnell a chadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir. Mae gan y blaid rwymedigaeth gyfreithiol i gadarnhau bod rhoddion yn rhai a ganiateir cyn eu derbyn.

Nid oes unrhyw derfynau ar nifer y rhoddion y gall plaid eu derbyn. Fodd bynnag, dim ond gan roddwr a ganiateir y gall dderbyn rhodd. Rhoddwr a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU

Hefyd, gall pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon dderbyn rhoddion gan ddinasyddion Iwerddon a chwmnïau o'r DU neu Iwerddon.

Adrodd

I bwy y mae pleidiau gwleidyddol yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i bleidiau gwleidyddol adrodd am eu gwariant i'r Comisiwn Etholiadol. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd am wariant o £250,000 neu lai yw **dydd Iau 12 Mawrth 2020**. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd am wariant dros £250,000 yw **dydd Gwener 12 Mehefin 2020**.

[Ceir rhagor o ganllawiau i bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr sy'n ymgyrchu yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar wefan y Comisiwn.](#)

Beth yw'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer adroddiadau wythnosol ar roddion a benthyciadau?

Rhaid i bencadlys canolog pleidiau gwleidyddol gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion a benthyciadau sy'n nodi'r rhoddion a'r benthyciadau dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt ar ôl **dydd Mercher 6 Tachwedd** a hyd at y diwrnod pleidleisio.

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad
6 Tach 2019 – 12 Tach 2019	19 Tach 2019
13 Tach 2019 – 19 Tach 2019	26 Tach 2019
20 Tach 2019 – 26 Tach 2019	3 Rhag 2019
27 Tach 2019 – 3 Rhag 2019	10 Rhag 2019

4 Rhag 2019 – 10 Rhag 2019 17 Rhag 2019

11 Rhag 2019 – 12 Rhag 2019 (llai na 7 diwrnod) 19 Rhag 2019

Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Cofrestru

Beth yw'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Unigolion a sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

Mae dau fath o ymgyrch gan rai nad ydynt yn bleidiau ac mae rheolau penodol yn gymwys i'w gwariant o fewn y cyfnod a reoleiddir, sef:

- Ymgyrchoedd lleol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn ymgeisydd mewn etholaeth benodol. Er enghraifft, os yw cynghrair lleol yn ymgyrchu dros ymgeisydd yn ei etholaeth
- Ymgyrchoedd cyffredinol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategorïau penodol o ymgeisydd, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiau neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr. Er enghraifft, grŵp ymgyrchu sy'n seiliedig ar faterion penodol yn ymgyrchu dros plaid wleidyddol ym mhob rhan o'r DU

Caiff ymgyrchoedd lleol eu rheoleiddio gan yr heddlu. Caiff ymgyrchoedd cyffredinol eu rheoleiddio gan y Comisiwn Etholiadol.

Heddiw, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [canllaw newydd i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau i hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r rheolau a'u helpu i ymgyrchu'n hyderus drwy gydol y flwyddyn](#).

Pryd y mae'n rhaid i ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol?

Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru â'r Comisiwn os ydynt yn bwriadu gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar weithgarwch a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Pa weithgareddau ymgyrchu cyffredinol sy'n cael eu rheoleiddio?

Gellir rheoleiddio gwariant ar y gweithgareddau canlynol:

- deunydd etholiad
- canfasio a gwaith ymchwil i'r farchnad
- raliâu cyhoeddus neu ddigwyddiadau cyhoeddus

- cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch

Ceir rhagor o [ganllawiau ar y profion sy'n penderfynu a yw gwariant yn cael ei reoleiddio ar wefan y Comisiwn](#).

Gwariant

Beth yw'r terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchoedd lleol?

Ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2019, y terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchoedd lleol gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yw £700 fesul etholaeth. Mae'r terfyn hwn yn gymwys o'r dyddiad y caiff y Senedd ei diddymu, h.y. **ddydd Mercher 6 Tachwedd**.

Beth yw'r terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol?

Rhaid i ymgyrchwyr sy'n gwario mwy na swm penodol ar ymgyrchoedd cyffredinol gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol.

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, yr uchafswm y gall ymgyrchydd cofrestredig neu anghofrestredig nad yw'n blaid ei wario ar weithgarwch ymgyrchu cyffredinol a reoleiddir mewn etholaeth seneddol benodol yw £9,750.

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2019 yn dechrau **ddydd Iau 13 Rhagfyr 2018** ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef **dydd Iau 12 Rhagfyr 2019**.

Y terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yw:

Wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol?

Rhan o'r DU	Nac ydynt	Ydynt
Lloegr	£20,000	£479,550
Yr Alban	£10,000	£73,400
Cymru	£10,000	£55,259
Gogledd Iwerddon	£10,000	£37,550

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad nas trefnwyd?

Cyn i etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019 gael ei alw, nid oedd unrhyw gyfnod a reoleiddir na therfyn gwariant mewn grym ar gyfer ymgyrchu cyffredinol yn yr etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ar ôl etholiadau Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019.

Nawr bod etholiad cyffredinol Senedd y DU wedi cael ei alw, mae'r 365 o ddiwrnodau cyn **dydd Iau 12 Rhagfyr 2019** yn disgyn o fewn y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Bydd unrhyw wariant ar weithgarwch a reoleiddir a oedd yn bodloni'r prawf cyhoeddus a'r prawf diben mewn etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod y cyfnod hwnnw bellach yn cyfrif tuag at derfyn gwariant ymgyrchydd nad yw'n blaid yn y rhan berthnasol o'r DU yn etholiad cyffredinol Senedd y DU. Mae hyn yn cynnwys gwariant mewn unrhyw is-etholiad yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Ceir rhagor o [ganllawiau ar y prawf cyhoeddus a'r prawf diben sy'n penderfynu a yw gwariant yn cael ei reoleiddio ar wefan y Comisiwn](#).

Adrodd

A oes rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adrodd am roddion i'r Comisiwn Etholiadol?

Fel pleidiau gwleidyddol, dim ond gan ffynhonnell a ganiateir y gall ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion dros £500 a roddir ar gyfer gweithgarwch a reoleiddir. Rhaid iddynt adrodd am unrhyw roddion sy'n fwy na chyfanswm o £7,500 i'r Comisiwn Etholiadol. Adroddir am y rhoddion hyn a'r gwariant yr aed iddo ar ôl y bleidlais.

Beth yw'r gofynion adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau adrodd i'r Comisiwn Etholiadol am roddion dros werth penodol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn y dyddiad pleidleisio. Gelwir hyn yn 'adrodd cyn y bleidlais'.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion sy'n nodi'r rhoddion dros £7,500 a dderbyniwyd ganddynt ar ôl **dydd Mercher 6 Tachwedd hyd at y diwrnod pleidleisio**.

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad
6 Tach 2019 – 12 Tach 2019	19 Tach 2019
13 Tach 2019 – 19 Tach 2019	26 Tach 2019

20 Tach 2019 – 26 Tach 2019	3 Rhag 2019
-----------------------------	-------------

27 Tach 2019 – 3 Rhag 2019	10 Rhag 2019
----------------------------	--------------

4 Rhag 2019 – 10 Rhag 2019	17 Rhag 2019
----------------------------	--------------

11 Rhag 2019 – 12 Rhag 2019 (llai na 7 diwrnod)	19 Rhag 2019
---	--------------

Pryd y bydd yn rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adrodd am eu gwariant i'r Comisiwn Etholiadol?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol erbyn **dydd Iau 12 Mawrth 2020**. Y dyddiad cau ar gyfer adrodd am wariant dros £250,000 yw **dydd Gwener 12 Mehefin 2020**.

Ymgyrchu yn yr etholiad

Beth y gall ymgeiswyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiadol.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel sy'n wir am bob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoleiddiol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu na'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd.

Bygwth ymgeiswyr mewn etholiadau

Rydym yn cydnabod bod dadl wleidyddol gadarn yn rhan o ddemocratiaeth iach ond gall pethau fynd yn rhy bell weithiau.

Mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Eryl y Goron i lunio dogfennau canllaw i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, i'w helpu i **ddeall y gwahaniaeth rhwng dadl wleidyddol ac ymddygiad anghyfreithlon**.

- Canllaw byr yw [Pan fydd pethau'n mynd yn rhy bell](#), sy'n rhoi cyngor cyffredinol
- Mae'r [Canllaw ar y cyd i ymgeiswyr mewn etholiadau](#) yn rhoi mwy o fanylion am natur troseddau posibl
- [Canllawiau i ymgeiswyr mewn etholiadau yn yr Alban](#)

Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018, cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet [ymgyngoriad ar ymddygiad bygythiol, dylanwad a gwybodaeth mewn etholiadau](#). Ym mis Mai 2019, ar ôl i ganlyniad yr ymgyngoriad gael ei gyhoeddi, cyhoeddodd y Llywodraeth [ei chynlluniau i gyflwyno trosedd newydd mewn cyfraith etholiadol ar fygwth ymgeisydd neu ymgyrchydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad, naill ai'n bersonol neu ar-lein](#).

A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnyddio 'argraffnodau' ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig. Mae argraffnod yn cynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid iddo gael ei gynnwys ar bob deunydd argraffedig fel posteri, hysbyslenni a thafleini. Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell y dylai ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, lle y bo'n bosibl, gynnwys argraffnod ar eu deunydd electronig (e.e. gwefannau, negeseuon e-bost a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol). Mae angen i bleidleiswyr wybod pwy sy'n eu targedu â negeseuon gwleidyddol ar-lein ac rydym wedi galw am newid yn y gyfraith.

Ym mis Mai 2019, [cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet, yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a rhanddeiliaid eraill i ymestyn y defnydd o argraffnodau i ddulliau cyfathrebu digidol.](#)

A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?

Pan fydd rhywun yn dod yn ymgeisydd, bydd ganddo'r hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr etholaeth y mae'n ymladd yr etholiad ynddi.

Dim ond i'w helpu i gwblhau eu ffurflen enwebu y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

A all ymgeiswyr ddsbarthu taflenni am ddim?

Gallant. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i anfon deunydd am ddim (drwy'r Post Brenhinol) unwaith at etholwyr yn yr etholaeth y mae'n ymladd yr etholiad ynddi. Mae hyn yn cynnwys:

- un cyfathrebiad etholiadol heb gyfeiriad sydd hyd at 60 gram at bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathrebiad etholiadol sydd hyd at 60 gram at bob etholwr

Bydd ymgeiswyr yn cysylltu â'r Post Brenhinol yn uniongyrchol i wneud y trefniadau ar gyfer eu taflenni. Ni chwmpesir costau'r deunydd ei hun, dim ond y tâl postio.

Pa reolau sy'n berthnasol i hustyngau?

Gall unrhyw un drefnu hustyngau, sef digwyddiadau sydd â'r nod o roi cyfle i'r cyhoedd glywed gan yr ymgeiswyr neu'r pleidiau sy'n sefyll etholiad yn eu hetholaeth.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r sawl sy'n trefnu hustyng wahodd pob ymgeisydd neu blaid sy'n sefyll mewn etholaeth. Fodd bynnag, gellir rheoleiddio gwariant ar hustyngau yn dibynnu ar sut y cânt eu trefnu. Gall hyn ddigwydd pan fydd y trefnydd yn gwahodd neu'n allgáu ymgeiswyr neu bleidiau yn ddetholus.

Mae gan y Comisiwn [ganllawiau pellach ar drefnu hustyngau.](#)

Sawl darllediad etholiadol y gall pleidiau gwleidyddol ei gael?

Darlledwyr teledu sy'n penderfynu sawl darllediad etholiadol y gall pleidiau gwleidyddol ei gael.

Pleidiau gwleidyddol sy'n talu am gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau ac yn eu cynhyrchu, a rhaid iddynt ufuddhau i'r gyfraith o ran, er enghraifft, hawlfraint, difenwi, dirmyg, anweddustra ac annog atgasedd hiliol neu drais.

Rhaid iddynt gydymffurfio â [Chod Darlledu Ofcom](#) a Chanllawiau Golygyddol y BBC sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd a thegwch a phreifatrwydd.

A oes rheolau ar ddiueddrwydd ar gyfer y cyfryngau yn ystod etholiad cyffredinol Senedd y DU?

Nid yw adroddiadau newyddion, eitemau nodwedd nac erthyglau golygyddol yn ddarostyngedig i gyfraith etholiadol, ac nid yw'r gyfraith yn gofyn iddynt fod yn ddiuedd.

Mae dadleuon teledu, radio ac ar-lein rhwng arweinwyr pleidiau hefyd yn fater i'r darlledwyr a'r papurau newydd perthnasol. Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol rôl reoleiddiol mewn perthynas â dadleuon rhwng arweinwyr plaid neu ddarllediadau etholiadol gan bleidiau.

Cytundebau Etholiadol

Beth yw cytundebau etholiadol?

Cytundeb etholiadol yw pan fydd plaid neu ymgeisydd yn cytuno i beidio â sefyll mewn ardal benodol, er mwyn rhoi gwell siawns i blaid neu ymgeisydd arall o ennill y sedd.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [canllawiau newydd](#) i bleidiau ac ymgyrchwyr sy'n ystyried ymrwymo i gytundeb etholiadol, neu sydd eisoes wedi gwneud hynny.

A ganiateir cytundebau etholiadol?

Nid yw'r gyfraith etholiadol yn diffinio cytundebau etholiadol ond nid oes dim yn atal nac yn gwahardd y cytundebau hyn rhag digwydd.

Gall pleidiau neu ymgeiswyr ddod i gytundeb i beidio â sefyll ymgeisydd, er mwyn rhoi gwell siawns i ymgeisydd neu blaid arall o ennill sedd. Os bydd ymgeiswyr neu bleidiau yn dod i'r math hwn o gytundeb, bydd rheolau yn gymwys a rhaid i'r cyllid a'r gwariant gael eu hadrodd yn briodol.

Pa reolau sy'n gymwys i'r rhai sydd am ymrwymo i gytundeb etholiadol?

Mae'r un rheolau o ran gwariant a rhoddion yn gymwys i'r rhai sy'n rhan o gytundebau etholiadol a'r rhai nad ydynt yn rhan o gytundeb etholiadol. Mae'r rheolau'n gymhleth a gallant amrywio yn dibynnu ar ffeithiau penodol pob cytundeb unigol y deuir iddo.

Er enghraifft, mewn rhai amgylchiadau, bydd gwariant yn ymddangos ar y ffurflen ar gyfer y blaid neu'r ymgeisydd sy'n sefyll ac, mewn amgylchiadau eraill, gall fod yn wariant ar ran y blaid sy'n sefyll o'r neilltu. Gall y rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fod yn gymwys hefyd.

Mae canllawiau'r Comisiwn ar gytundebau etholiadol yn rhoi rhagor o enghreifftiau i bleidiau ac ymgyrchwyr.

Ymgyrchu digidol

A ddylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod ymgyrch etholiadol?

Mae nifer o heriau wedi codi yn sgil poblogrwydd ymgyrchu digidol, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod manteision y dull hwn o weithredu a'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, sy'n ffordd wych i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr ymgysylltu â phobl yn uniongyrchol ynghylch materion pwysig.


Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion yn y maes hwn, a nodir yn [adroddiad ymgyrchu digidol](#) y Comisiwn. I bleidleiswyr, mae tryloywder cyllid gwleidyddol yn bwysig iawn. Rydym yn parhau i annog y Llywodraeth, yn enwedig Swyddfa'r Cabinet, i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwella tryloywder i bleidleiswyr, fel sicrhau bod gwneud argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu etholiadol digidol yn ofyniad cyfreithiol.

Faint a wariwyd ar ymgyrchoedd digidol yn yr etholiadau cyffredinol yn 2015 a 2017?

Yn etholiad cyffredinol 2015, gwariodd ymgyrchwyr 23.9% o gyfanswm eu gwariant ymgyrchu ar hysbysebu digidol. Cynyddodd hyn i 42.8% yn etholiad cyffredinol 2017.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cynnydd mewn gwariant ar hysbysebu digidol gan ymgyrchwyr yn [adroddiad y Comisiwn ar ymgyrchu digidol](#).

Siart 1: Gwariant gan ymgyrchwyr ar hysbysebion digidol fel canran o gyfanswm y gwariant ar hysbysebu



Beth yw argymhellion y Comisiwn ar gyfer ymgyrchu digidol?

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad [Ymgyrchu digidol: Cynyddu tryloywder i bleidleiswyr](#).

Byddai argymhellion y Comisiwn, a nodir isod, yn gwella tryloywder ymgyrchoedd digidol ac yn helpu i sicrhau bod pleidleiswyr yn y DU yn hyderus bod ymgyrchoedd digidol yn dilyn rheolau etholiadol y DU.

- Rhaid i ddeunydd ymgyrchu digidol gynnwys argraffnod sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a phwy a grëodd y deunydd.
- Dylai ymgyrchwyr is-rannu eu ffurflenni gwariant yn wahanol fathau o wariant a dylent roi mwy o wybodaeth am yr arian a gaiff ei wario ar ymgyrchoedd digidol.
- Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol weithio gyda ni i wella eu polisïau ar ddeunydd ymgyrchu a hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.
- Dylai hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU sy'n ymddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael eu labelu er mwyn dangos y ffynhonnell yn glir. Dylai cronfeydd data ar-lein o hysbysebion gwleidyddol gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.
- Dylid gwahardd gwariant ar ymgyrchoedd etholiadau neu refferenda gan sefydliadau neu unigolion tramor.
- Dylid cynyddu'r ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi i ymgyrchwyr am dorri'r rheolau, a dylid cryfhau ein pwerau i gael gafael ar wybodaeth sydd y tu hwnt i ymchwiliad.

Twyll Etholiadol

Tramgwyddau pleidleisio

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu bwynt cyswllt unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Crimestoppers yn ddiennw ar 0800 555 111.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth bod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng, oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni.

Mae troseddau'n cynnwys:

Cambersonadu – Pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.

Dylanwad gormodol / ymddygiad bygythiol – Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os yw'n ceisio dylanwadu ar y ffordd y mae rhywun yn pleidleisio drwy wneud y canlynol:

- defnyddio neu fygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth
- achosi neu fygwth achosi anaf, difrod, colled neu niwed
- atal neu rwystro rhywun rhag arfer ei hawl i bleidleisio – hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.

Llwrwobrwyo – Mae person yn euog o llwrwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cynnig unrhyw wobwr (gwobr ariannol neu wobwr arall) er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros unrhyw ymgeisydd neu beidio â phleidleisio.

Anrhegu – Mae person yn euog o anrhegu os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn cynnig bwyd, diod neu adloniant er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig – nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

Datganiadau ffug – Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau ffug am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd

mewn etholiad. Nid yw datganiadau ffug nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug bwriadol ar bapur enwebu.

Troseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy – Ceir amryw droseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan na chaniateir i chi wneud hynny a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

Gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chofrestru a phleidleisio absennol – Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug ar gyfer pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.

Pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau ei bod yn ddiogel pleidleisio drwy'r post?

Rhaid i bleidleiswyr post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais am bleidlais bost, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau yn fodlon eu bod yn cyfateb, ni chaiff y papur pleidleisio ei gyfrif.

Atgyfnerthwyd y system ymhellach pan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol yn 2014. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ddarparu ei rif Yswiriant Gwladol yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol uchod os bydd am fwrw ei bleidlais drwy'r post.

Cyfrifoldebau am fynd i'r afael â thwyll etholiadol

Sut mae'r Comisiwn yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal twyll pleidleisiau post?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datblygu [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr](#), sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u cefnogwyr. Mae'n ymdrin â'r ffordd y caiff ceisiadau am bleidlais bost a phecynnau pleidleisio drwy'r post eu trin, ymddygiad y tu allan i orsafoedd pleidleisio a rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol. Yn benodol, mae'r Cod yn nodi na ddylai pleidiau, ymgeiswyr nac ymgyrchwyr wneud y canlynol:

- byth helpu i gwblhau papur pleidleisio – yn lle hynny, dylai ymgyrchwyr bob amser gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau, a fydd o bosibl yn gallu trefnu ymweliad cartref neu roi cymorth yn yr orsaf pleidleisio.
- byth drin na chymryd unrhyw bapurau pleidleisio wedi'u cwblhau oddi wrth bleidleiswyr. Yn lle hynny, dylid annog pleidleiswyr i bostio eu pecyn pleidleisio drwy'r post eu hunain - efallai y gall staff y Swyddog Canlyniadau drefnu iddo gael ei gasglu.

Nid yw'r gyfraith yn gwahardd ymgeiswyr, pleidiau nac ymgyrchwyr rhag trin pleidleisiau post. Rydym am weld newid yn y gyfraith er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr, pleidiau

nac ymgyrchwyr yn trin ceisiadau wedi'u cwblhau am bleidlais absennol na phecynnau pleidleisio drwy'r post nac yn eu cymryd wrth bleidleiswyr.

Beth sy'n digwydd os bydd plaid wleidyddol yn torri'r Cod Ymddygiad?

Mae'r cod yn wirfoddol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd problemau'n codi eto. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu o bosibl yn erbyn eu haelodau.

Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal sy'n bennaf cyfrifol am wneud hyn. Maent yn gweithio'n agos gyda'r heddlu lleol.

Cyhoeddwyd [canllawiau ar blismona etholiadau](#) i gefnogi swyddogion yr heddlu a phwyntiau cyswllt unigol wrth iddynt roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar waith blaenorol gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bellach yn rhan o Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Pleidleiswyr

Cofrestru i bleidleisio

Pwy all bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU?

Gall rhywun gofrestru i bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU os yw:

- yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio
- yn ddinesydd Prydeinig sy'n byw yn y DU
- yn ddinesydd Gwyddelig, neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, sy'n byw yn y DU

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor a oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU yn ystod y 15 mlynedd diwethaf gofrestru fel etholwyr tramor a phleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU. Gall pleidleiswyr yn y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu dramor gofrestru a phleidleisio hefyd.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw **dydd Mawrth 26 Tachwedd**.

Beth yw'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ym Mhrydain Fawr?

Gwneud cais am bleidlais bost a phleidlais bost drwy ddirprwy – **5pm, ddydd Mawrth 26 Tachwedd**

Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng – **5pm, ddydd Mercher 4 Rhagfyr**

Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng – **5pm, ddydd Iau 12 Rhagfyr**

I wneud cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy, dylai pleidleiswyr fynd i'r [adran 'Rwyf yn bleidleisiwr' ar wefan y Comisiwn Etholiadol](#) i lawrlwytho a chwblhau'r ffurflen gais berthnasol a'i dychwelyd i'w swyddfa gofrestru etholiadol.

Mae Rhan D o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn cynnwys [gwybodaeth bellach am yr amgylchiadau lle y gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng](#).

Beth yw'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy yng Ngogledd Iwerddon?

Gwneud cais am bleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy – **5pm, ddydd Iau 21 Tachwedd**

Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pleidleiswyr fynd ar-lein i gofrestru i bleidleisio yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Gall pobl wneud cais drwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur o hyd os oes well ganddynt. Gallant gysylltu â swyddfa cofrestru etholiadol eu hawdurdod lleol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho o wefan Llywodraeth y DU.

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt swyddfeydd cofrestru etholiadol awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r [adnodd chwilio gan ddefnyddio cod post ar wefan y Comisiwn Etholiadol](#).

A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Gallwch fod wedi'ch cofrestru i bleidleisio mewn dau gyfeiriad gwahanol, ond dim ond mewn un lle y gallwch bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU. Mae'n drosedd pleidleisio ddwywaith yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Sut mae aelodau o'r lluoedd arfog yn cofrestru ac yn pleidleisio?

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref neu yn eu barics yn y ffordd arferol, neu fel 'pleidleisiwr yn y lluoedd arfog'. Bydd pleidleiswyr yn y lluoedd arfog yn cwblhau datganiad y lluoedd arfog er mwyn sicrhau y gallant gofrestru pan fyddant oddi cartref ar ddyletswydd.

A all carcharorion bleidleisio?

Gall carcharorion remand (y rhai nad ydynt wedi cael eu collfarnu na'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog sydd wedi cael eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio.

Mewn rhai achosion prin, gall carcharorion a ryddhawyd ar drwydded dros dro fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru i bleidleisio.

Y broses bleidleisio

Pryd y bydd y gorsaf bleidleisio yn agor?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun mewn ciw i fynd i mewn i orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd ei orsaf bleidleisio ac sydd mewn ciw yn aros i bleidleisio am 10pm, yn gallu pleidleisio.

Pa system bleidleisio a ddefnyddir yn yr etholiadau hyn a sut y gallwch bleidleisio?

Defnyddir system etholiadol 'y cyntaf i'r felin' yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Dylai pleidleiswyr roi un 'X' ar eu papur pleidleisio yn y blwch wrth ymyl yr ymgeisydd y maent am iddo gynrychioli eu hetholaeth yn Nhŷ'r Cyffredin.

Pleidleisio'n bersonol

Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w gorsaf bleidleisio leol rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 12 Tachwedd i fwrw eu pleidlais.

- Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir cerdyn pleidleisio at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio
- Dim ond yn yr orsaf bleidleisio a nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio
- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r papur pleidleisio a sut i bleidleisio
- Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses

Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i bleidleiswyr gyflwyno prawf adnabod ffotograffig penodol mewn gorsafoedd pleidleisio.

Pleidleisio drwy'r post

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost ar gyfer etholiad penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer pob etholiad y maent yn gymwys i bleidleisio ynddo. Er mwyn pleidleisio drwy'r post, bydd angen i etholwyr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost cyn **5pm ddydd Mawrth 26 Tachwedd**.

- Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr wythnos cyn y diwrnod pleidleisio
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papurau pleidleisio a'u dychwelyd ar unwaith, er mwyn iddynt gyrraedd cyn **10pm ddydd Iau 12 Rhagfyr**
- Ni chaiff pleidleisiau sy'n cyrraedd ar ôl **10pm ddydd Iau 12 Rhagfyr** eu cyfrif. Yr unig eithriad yw os bydd rhywun mewn ciw mewn gorsaf bleidleisio am 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost a gwblhawyd. Yn yr achos prin hwnnw, gellir dychwelyd y bleidlais bost ar ôl 10pm
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hetholaeth rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio
- Rhaid i bleidleiswyr hefyd gofio cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post gyda'u llofnod a'u dyddiad geni, neu ni chaiff eu pleidlais ei chyfrif

Gall pleidleiswyr na allant lofnodi eu henw neu na allant lofnodi mewn modd cyson wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i bleidleisio drwy'r post heb roi llofnod. Fel arfer, gelwir hwn yn gais i hepgor llofnod ar bleidlais bost.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr gofrestru ar gyfer 'pleidlais drwy ddirprwy'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan. Bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi ffurflen a'i dychwelyd i'w swyddfa gofrestru etholiadol leol erbyn **5pm ddydd Mercher 4 Rhagfyr**.

Pa ddarpariaethau a wneir i sicrhau bod y broses bleidleisio yn fwy hygyrch i bleidleiswyr ag anableddau?

Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y caiff gorsafoedd pleidleisio eu gosod gan ystyried y pleidleisiwr. Yn benodol, dylid ystyried anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau gwahanol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y caiff holl ddodrefn a chyfarpar angenrheidiol yr orsaf bleidleisio eu gosod, yn ogystal â lleoliad hysbysiadau, ynghyd â gosod arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac arwyddion allanol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol darparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy ym mhob gorsaf bleidleisio. Mae'r ddyfais hon yn galluogi rhywun sy'n ddall neu'n rhannol ddall i farcio'r papur pleidleisio ei hun, unwaith y bydd naill ai ei gydymaith neu'r aelod o staff sy'n gyfrifol am yr orsaf bleidleisio (y Swyddog Llywyddu) wedi darllen y manylion ar y papur pleidleisio iddo. Hefyd, rhaid arddangos fersiwn print bras o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr sy'n rhannol ddall. Rhaid i gopïau llaw mwy o faint, a gaiff eu marcio fel 'saml', fod ar gael hefyd i unrhyw un sydd eu hangen.

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Hygyrchedd Etholiadau, a gaiff ei redeg gan Swyddfa'r Cabinet, er mwyn ystyried sut y gellir sicrhau bod y broses bleidleisio yn fwy hygyrch. [Mae'r Comisiwn wedi ymateb i gais Llywodraeth y DU am dystiolaeth gydag argymhellion ar sut y gellir sicrhau bod etholiadau yn fwy hygyrch.](#)

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU i'r Cais am Dystiolaeth ym mis Awst 2018. Mae'n rhestru canfyddiadau allweddol a champau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwella hygyrchedd etholiadau yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn darparu [canllawiau i staff gorsafoedd pleidleisio](#) er mwyn eu helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb. Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff sy'n cynnal etholiad cyffredinol Senedd y DU.

A oes raid defnyddio pensiliau mewn gorsafoedd pleidleisio? A ellir defnyddio peniau yn lle hynny?

Nid oes dim yn y gyfraith sy'n nodi p'un a ddylid defnyddio peniau neu pensiliau i farcio papur pleidleisio. Defnyddiwyd pensiliau i farcio papurau pleidleisio am resymau ymarferol: er enghraifft, gyda pheniau inc mae siawns y gall yr inc sychu neu ollwng. Hefyd, gall inc achosi i'r marc a wnaed gan y pleidleisiwr gael ei drosglwyddo pan gaiff y papur pleidleisio ei blygu, a allai arwain at wrthod y papur pleidleisio. Gall pleidleisiwr ddefnyddio pen i farcio ei bapur pleidleisio os bydd yn dymuno gwneud hynny.

A all pleidleiswyr gymryd hunluniau neu ffotograffau eraill yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, p'un a yw hynny'n fwriadol ai peidio, ein cyngor yw na ddylid tynnu unrhyw luniau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

A yw'n iawn i rywun dynnu llun o'i bleidlais bost a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos sut mae wedi pleidleisio?

Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu trin yn wahanol mewn cyfraith etholiadol, o gymharu â phapurau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall rhywun sy'n pleidleisio drwy'r post dynnu llun o'i bapur pleidleisio drwy'r post ei hun a'i gyhoeddi (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol).

Fodd bynnag, er y gall yr unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ei hun gyhoeddi'r wybodaeth, pe bai rhywun arall yn ei ddarbwylllo neu'n ei annog i rannu'r wybodaeth hon, byddai'n cyflawni trosedd. Os oes unrhyw awgrymiadau neu honiadau y gallai hyn fod yn digwydd, dylid rhoi gwybod i'r heddlu.

Codi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr

Beth y mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal y gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol ac yn arwain yr ymdrechion i gael cynifer o bobl â phosibl ar y cofrestrau.

Bydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynlluniau i godi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr yn eu hardaloedd, gan gynnwys sut y byddant yn annog grwpiau sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio i wneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hysbysebu er mwyn cyrraedd eu trigolion lleol, gan gynnwys ysgrifennu at breswylwyr lleol, ac mae llawer wedi datblygu partneriaethau ag ysgolion a cholegau lleol i annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio.

Beth y mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth y Comisiwn i annog pleidleiswyr i gofrestru yn para tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru, sef dydd Mawrth 26 Tachwedd. Bydd hysbysebion yn cael eu dangos drwy fideo ar alw, ar y teledu, wrth chwilio ar-lein ac ar sianeli cymdeithasol. Cefnogir hyn gan weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn hefyd yn rhannu adnoddau y gall awdurdodau lleol a phartneriaid eraill eu defnyddio fel rhan o'u gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd.

Sut y gall sefydliadau eraill helpu i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Fel ym mhob etholiad diweddar, mae'r Comisiwn yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner – o'r sector corfforaethol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector – er mwyn ceisio cyrraedd pleidleiswyr o grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol yn draddodiadol a'u hannog i gofrestru i bleidleisio. Dylai unrhyw sefydliad a fyddai'n hoffi hyrwyddo'r negeseuon hyn fynd i'r [adran 'Rwyf yn bleidleisiwr' ar wefan y Comisiwn Etholiadol](#), lle gallant hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr cofrestru pleidleiswyr, 'Roll Call'.

Trefnu etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr

Beth yw'r heriau sydd ynghlwm wrth drefnu etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Rhagfyr?

Mae rhai heriau penodol ynghlwm wrth gynnal etholiad ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r rhain yn ymwneud â'r agosrwydd at ddiwedd y canfasiad blynyddol a'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig.

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi [canllawiau penodol i Swyddogion Canlyniadau \(Gweithredol\) i'w helpu i reoli'r heriau penodol sydd ynghlwm wrth gynnal etholiad ar ddechrau mis Rhagfyr](#). Bydd y Comisiwn yn parhau i ymgysylltu â Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i roi arweiniad a chymorth drwy gydol cyfnod yr etholiad.

Pwy sy'n gyfrifol am drefnu gorsafoedd pleidleisio?

Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am nodi gorsafoedd pleidleisio yn eu hardal leol a bydd ganddynt gynlluniau ar waith i'w helpu i ymateb yn gyflym i etholiad ym mis Rhagfyr.

Sut y gall awdurdodau lleol baratoi ar gyfer tywydd gwael ar y diwrnod pleidleisio?

Mae bob amser yn bosibl y bydd tywydd gwael yn effeithio ar y broses ymarferol o gynnal etholiad ond mae gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) brofiad o lunio cynlluniau wrth gefn a fydd yn eu helpu i ymateb yn briodol os bydd y tywydd yn wael.

Digwyddiadau cyfrif

Y broses gyfrif a chyhoeddi'r canlyniadau

Pwy sy'n gyfrifol am y broses gyfrif?

Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n bennaf cyfrifol am gyfrif y pleidleisiau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Swyddogion Llywyddu yn cludo blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif mewn modd diogel ac amserol; a bod y sawl a gaiff ei recriwtio i gyfrif y papurau pleidleisio wedi'i hyfforddi'n dda o ran sut y dylai gyflawni ei ddyletswyddau.

Pryd bydd y broses gyfrif yn dechrau?

Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif y pleidleisiau a fwrwyd ar y papurau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol o fewn pedair awr i ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio'n dod i ben am 10pm.

Sut y byddaf yn gwybod pryd y caiff y canlyniadau eu datgan mewn ardaloedd gwahanol?

Bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn gallu rhoi amcan o amseroedd ar gyfer y broses gyfrif.

Pwy all fynychu'r cyfrif?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y broses gyfrif:

- y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff
- ymgeiswyr ac un gwestai
- asiantiaid etholiadol (neu is-asiantiaid ar eu rhan)
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- unrhyw berson arall sydd wedi cael caniatâd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i fod yn bresennol

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol yn ystod y broses gyfrif gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) perthnasol i ofyn am ganiatâd i fod yn bresennol yn ystod y broses gyfrif ac adeg datgan y canlyniadau.

Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif a'r canlyniadau eu cyhoeddi?

1. **Derbyn blychau pleidleisio:** bydd blychau pleidleisio drwy'r post a blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio yn cyrraedd lleoliad y cyfrif
2. **Dilysu:**
 - a. Bydd y staff yn cyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r niferoedd a gofnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)
 - b. Bydd y staff hefyd yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf pleidleisio. Byddant yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddsbarthwyd, fel y'i cofnodwyd ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu
 - c. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn llunio datganiad yn dangos faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd o gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd
3. **Cyfrif y pleidleisiau**
 - a. Bydd y staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd
 - b. Bydd y staff wedyn yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd
 - c. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhannu'r canlyniad dros dro â'r ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn am i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol
4. **Datgan y canlyniad:** Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ac yna'n cyhoeddi enw'r ymgeisydd sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau fel yr Aelod Seneddol etholedig ar gyfer yr etholaeth

Beth sy'n digwydd gyda phapurau pleidleisio a ddifethwyd?

Unwaith y bydd cam dilysu'r cyfrif wedi'i gwblhau, caiff y papurau pleidleisio eu rhannu yn ôl ymgeisydd a chaiff unrhyw bapurau pleidleisio amheus eu nodi. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwneud dyfarniad ynghylch unrhyw bapurau pleidleisio amheus ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr a'u hasiantiaid ac mae'r Comisiwn wedi rhoi canllawiau i'w helpu i wneud hyn.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi sawl papur pleidleisio a wrthodwyd wrth gyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

Caiff unrhyw bapurau pleidleisio yr ystyrir eu bod yn rhai 'da' yn y broses hon eu dychwelyd a'u dyrannu i'r ymgeisydd perthnasol.

Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses hon?

Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi rhybudd o 48 awr o leiaf gan nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar

eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y bleidlais ei gwrthod.

Gall ymgeiswyr arsylwi ar y broses neu benodi asiant pleidleisiau post i wneud hynny. Caiff papurau pleidleisio eu trin â'u hwynebaw i lawr mewn sesiynau agor pleidleisiau post. Ni ddylai neb sy'n mynychu sesiwn agor geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn.

Caiff yr holl bapurau pleidleisio dilys eu rhoi mewn blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Gall rhywun herio canlyniad etholiad drwy gyhoeddi deiseb etholiadol. Mae'n gam cyfreithiol a chaiff ei ddyfarnu gan farnwr mewn llys.

Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

[Cyhoeddodd Comisiynau'r Gyfraith adroddiad interim ar y cyd](#) ar 4 Chwefror 2016 a oedd yn argymhell y dylid moderneiddio'r broses o herio etholiadau er mwyn ei gwneud yn haws i bleidiau ei deall a'i defnyddio, ac y dylai barnwyr gael y pŵer, mewn achosion priodol, i gyfyngu ar y costau posibl i'r rhai sy'n herio. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cefnogi hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am herio canlyniad etholiad yn [Rhan 6 ein Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

A allaf ffilmio mewn digwyddiadau cyfrif?

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyfrif a ffilmio ynddynt ofyn am ganiatâd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) perthnasol ymlaen llaw.